Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llechryd

Ysgol Gynradd Llechryd
Llechryd
Ceredigion
SA43 2NL

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llechryd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llechryd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Ddydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Claire Jones |
| Person â gofal | Dawn Graham |
| Nifer y lleoedd | 14 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 5 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Iau 9 - 12 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Rhagfyr 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 23/10/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/11/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cysoni dull pwrpasol o gofnodi arsylwadau i adnabod a chynllunio camau nesaf plant unigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau’n hyderus wrth chwarae. Maent yn symud rhwng gwahanol weithgareddau’n hyderus ac yn dilyn eu diddordebau a dewisiadau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod sesiwn cofrestru a chanu, mae y rhan fwyaf o’r plant yn dewis eistedd a chymryd rhan yn frwdfrydig, tra bod nifer bach yn aros nôl ac arsylwi o’r ardal chwarae. Maent yn sgwrsio’n hapus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus iawn ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd gyda threfniadau’r diwrnod. Er enghraifft, mae’r plant yn gwybod bod angen golchi dwylo cyn amser snac a wedi dod i fewn o chwarae tu allan.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn cymryd eu tro ac yn dechrau deall y pwysigrwydd o rhannu adnoddau yn llwyddiannus â chefnogaeth. Er enghraifft, trwy gydweithio’n hapus tu allan, yn chwilio am wahanol liwiau o ddail yn y cae tra bod un arall yn cofnodi hyn ar y daflen. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a’u ffrindiau ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur. Mae bron pob plentyn yn gwrtais wrth dderbyn eu snac a diod yn ymateb gyda ‘diolch’ wrth ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac maent yn chwilfrydig, er enghraifft, wrth chware budr tu allan yn y tywod gwlyb, neu yn creu pryd o fwyd yn y tŷ bach twt. Maent yn mwynhau symud o un gweithgaredd i’r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae’r plant wrth eu bodd yn creu ffau hydrefol i'r draenog gael cysgu, trwy ddefnyddio brigau a dail.

Mae’r plant yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn, er enghraifft wrth roi cot ac esgidiau glaw ymlaen heb gymorth, yn ogystal ac arllwys llaeth a dŵr o’r jwg i’w cwpanau. Mae bron pob plentyn yn casglu eu snac o’u bag yn annibynnol ac yn eu rhoi ar eu platiau. Maent yn defnyddio’r tŷ bach yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol ac yn annog i'r plant ddod â byrbrydau iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres ac yn darparu llaeth a dŵr. Mae ymarferwyr yn sicrhau amser chwarae tu allan yn dyddiol, mewn dillad priodol ac yn rhannu negeseuon diogelu gyda'r plant wrth iddynt ddringo y sleid gwlyb a'r mainc pren.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac yn cynnig amser allan o'r sefyllfa. Mae ymarferwyr yn cydnabod pan nad yw plentyn yn ymddangos ei hun.

Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus iawn ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn e weithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn ymateb yn dda iddynt ar lafar neu'n ddi-eiriau. Mae ymarferwyr yn gyson wrth ganmol ymddygiad y plant, gan esbonio pam eu bod yn derbyn canmoliaeth. Er enghraifft, pan fo plentyn yn tacluso, mae'r neges yn glir pob tro ac maent yn diolch i'r plant am eu cydweithrediad. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda'r plant ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. O ganlyniad, mae'r plant yn enyn hyder neu yn ymfalchïo yn ei llwyddiannau.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus, gan drafod cyfleoedd dysgu yn briodol. Maent yn dilyn diddordebau a syniadau y plant pan yn cynllunio gweithgareddau. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos gyda rhieni pan mae plant newydd yn cychwyn, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol beth ydyw anghenion a dewisiadau unigol y plant. Mae prosesau effeithiol yn sicrhau fod ymarferwyr

yn adnabod a chefnogi yr holl blant yn effeithiol gan gynnwys y plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant a gofynion y cwricwlwm ac maent yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn ymateb yn bwrpasol i syniadau a diddordebau'r plant i ymestyn eu dysgu. Maent yn cynnal trafodaethau cyson â'r plant ac yn eu holi yn bwrpasol yn ystod eu gweithgareddau, i'w herio a'u cynorthwyo yn eu dysgu wrth iddynt chwarae a meithrin eu hannibyniaeth. Er enghraifft, maent yn annog y plant i feddwl yn feirniadol wrth iddynt arbrofi gyda gwrthrychau amrywiol yn y twba dŵr i archwilio pa rai sy'n suddo a pha rai sy'n arnofio.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd plant. Cryfder amlwg yn y ddarpariaeth yw'r modd y mae ymarferwyr yn modelu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ddiflino, gan ddefnyddio sgwrsio a chanu bywiog yn effeithiol i ddatblygu geirfa'r plant yn gyson. Mae hyn yn dechrau datblygu hyder cynyddol plant i ymateb ac ymgysylltu yn y Gymraeg. Maent yn cymell y plant yn llwyddiannus i feithrin eu medrau ysgrifennu cynnar trwy greu marciau gydag amrywiaeth dda o gyfryngau pwrpasol, a'u hannog i drin a thrafod ystod dda o lyfrau â mwynhad yn yr ardaloedd darllen croesawgar.

Mae ymarferwyr yn annog datblygiad medrau rhifedd y plant yn briodol, er enghraifft wrth sicrhau bod cynwysyddion o wahanol feintiau yn hygyrch yn y gegin fwd a'r twba dŵr gan annog y plant i chwarae ac arbrofi gyda'r offer. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau digidol. Maent yn darparu ystod addas o adnoddau digidol perthnasol yn yr ardaloedd i gefnogi eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft ffôn, sgrîn ddigidol a thil.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu pwrpasol sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol plant yn dda. Trwy ystod briodol o adnoddau amlddiwylliannol a gweithgareddau ystyrlon a chreadigol sy'n cysylltu â gwyliau a thraddodiadau fel Diwali a Sul y Cofio, mae'r plant yn meithrin parch ac ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau yn fwriadus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'r diwylliant Cymreig yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau priodol ac i wneud penderfyniadau am eu dysgu yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan. Er enghraifft, maent yn ychwanegu adnoddau pwrpasol, fel morthwyl, llif a hoelion wrth annog plant i arbrofi yn gynyddol annibynnol yn yr ardal gwaith coed. Yn ogystal, maent yn annog plant i arbrofi a mentro yn eu chwarae yn gyson, sy'n meithrin eu medrau corfforol yn effeithiol.

Mae ystod dda o weithgareddau awyr agored yn annog plant i fentro, i ddod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd ac i ddangos gofal a pharch at bethau byw. Mae ymarferwyr yn annog y plant i dyfu a dyfrio blodau yn yr ardal allanol ac i archwilio gwahanol nodweddion yr hydref yn yr ardal goedwig gyfagos fel rhan o her ‘Helfa’r Hydref’. Mae hyn yn annog plant i fwynhau’r awyr agored ac i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd a rhyfeddod at y byd o’u cwmpas yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau priodol am gynnydd plant yn eu dysgu a’u chwarae. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn cofnodi’r dysgu yn ddigon cyson i fwydo’r cynllunio ac i lywio’r camau nesaf er mwyn sicrhau cynnydd ym medrau’r plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel, a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio’r ardal allanol i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn cwblhau asesiadau risg yn briodol. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael plant ag oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Mae arweinwyr yn cynnal driliau tan rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi yn fanwl.

Mae’r amgylchedd yn gynhwysol ac mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae’r amgylchedd yn caniatáu i blant ddewis os hoffem chwarae tu allan neu tu fewn, gan bod y drws yn agored yn ystod y sesiwn. Mae’r plant yn cael eu tywys i’r tŷ bach gan yr ymarferwyr pan maent yn gofyn i fynd. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac mae trefniadau glanhau rheolaidd yn eu lle, sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau  risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae’r ystafell wedi ei lleoli o fewn yr ysgol ac yn groesawgar a chyfeillgar, sy’n cynnig amgylchedd effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd dda o’r ystafell a’r ardal allanol i ddarparu ardaloedd dysgu y gall plant eu defnyddio yn annibynnol. Er enghraifft, mae’r adnoddau synhwyrol yn hyrwyddo profiadau chyffyrddol y plant ac yn eu ymlacio a chysuro. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys gwaith y plant, a lluniau ohonynt yn chwarae o fewn y lleoliad. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddefnyddio’r gofod chwarae yn yr awyr agored sydd tu cefn yr adeilad, yn ogystal a cae’r ysgol cyfagos sydd yn ardal cyffroes ac eang.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy’n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i’r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o’r

cartref ar gael. Mae'r arweinydd yn darparu adnoddau sydd yn annog chwilfrydedd am y gymdeithas ehangach ac mae adnoddau i hybu gwerthoedd aml-ddiwylliannol ymysg y plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir am y lleoliad yn seiliedig ar ddatblygu ymdeimlad cryf o lesiant ar gyfer pob plentyn a'u bod yn ddiogel. Mae'r arweinydd yn ymroddgar i'w gwaith ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn ofalgar o'r plant ac yn eu cydnabod fel unigolion unigryw. Mae hyn yn cyfrannu'n fwriadus at greu amgylchedd cyfeillgar yn y lleoliad sy'n golygu bod y plant, a'r ymarferwyr, yn mwynhau mynychu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn briodol ac yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac amserol ac yn sicrhau bod rolau pob un o'r ymarferwyr wedi'u diffinio'n glir. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r amserlen benodedig. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae gan arweinwyr drefniadau effeithlon i werthuso perfformiad ymarferwyr, gan oruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau priodol, ac mae ganddynt swydd ddisgrifiadau addas, sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl yn y lleoliad.

Ar y cyfan, mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant y lleoliad yn bwrpasol. Mae arweinwyr yn adnabod eu cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethau gwella wedi eu rhannu'n gamau synhwyrol, ac yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd.

Darperir rhaglen o hyfforddiant gwerthfawr i ymarferwyr i gefnogi eu harferion yn bwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw hyfforddiant i gaffael dulliau amgen i gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol a dysgu plant. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y modd mae plant yn dysgu i ddilyn rheolau syml y lleoliad yn gyson, ac wrth gyd-chwarae yn ddedwydd yn yr ardaloedd.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar, yn synhwyrol i flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad. Er enghraifft, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau pwrpasol o ansawdd da dros gyfnod er mwyn darparu amgylchedd ysgogol a chyffrous i blant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwneud defnydd ystyrlon o ymweliadau y tu hwnt i'r lleoliad i ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu. Trwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth

gymunedol yn fwriadus, mae'r plant yn dosbarthu blodau haul a blannwyd yn y lleoliad o amgylch busnesau lleol i gymdogion eu prynu. Mae hyn yn cefnogi plant yn effeithiol i ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w milltir sgwâr.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n agos â'r athrawes ymgynghorol blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ADY yr awdurdod lleol a mudiadau eraill i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Cryfder amlwg yw'r modd mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sefydlu perthynas gadarn â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn gyson gyda nhw am weithgareddau'r cylch a datblygiad eu plant.

Mae gan arweinwyr berthynas agos a chefnogol gyda'r ysgol lle lleolir y ddarpariaeth. Mae ganddynt drefniadau pontio effeithiol ar waith, sy'n cefnogi plant yn bwrpasol wrth iddynt symud ymlaen y ddiffwdan i'r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2026